CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

CIC GOGLEDD CYMRU / NORTH WALES CHC

Newidiadau Dros Dro i Wasanaethau Merched a Mamolaeth 2015

Beth fydd rhan CIC yn yr ymgynghoriad?

Bydd CIC yn:

1. Edrych ar y papurau a gyhoeddir gan y bwrdd iechyd am ei gynigion. A ydynt ar gael yn eang ac yn hawdd i'w deall?
2. Edrych ar gynlluniau'r bwrdd iechyd i ymgynghori gyda'r cyhoedd am ei gynigion – a fydd yn annog pawb fydd eisiau rhoi sylwadau i wneud hynny?
3. Annog a chefnogi'r ddadl drwy gynnig corff annibynnol y gall pobl siarad ag ef – gan holi barn cymaint o bobl â phosib: Beth mae'r cynigion hyn yn ei olygu i chi?
4. Astudio a rhoi sylwadau ar yr agweddau technegol a'r dystiolaeth gefnogol dros gynigion y bwrdd iechyd.
5. Ysgrifennu ymateb ffurfiol i ddogfen ymgynghorol y bwrdd iechyd wedi ei seilio ar yr holl sylwadau a gesglir ac yn dweud beth yr ydym yn ei gredu yw manteision ac anfanteision cynigion y bwrdd iechyd.
6. Edrych ar y ffordd mae'r bwrdd iechyd yn ystyried yr ymatebion i'w ddogfen ymgynghorol gan ddweud os yw'r cynigion er budd pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth iechyd ac i'r gwasanaeth ei hun.

Disgwylir i CIC ymgymryd â'i waith mewn ffordd amhleidiol. Felly, bydd yn:

- nodi ei rôl yn glir (fel yr uchod) ac yn gyhoeddus
- darparu gwybodaeth i unrhyw un sy'n gofyn gan adael y gwaith o ddehongli'r wybodaeth i'r unigolyn neu'r corff hwnnw
- sicrhau bod aelodau CIC sy'n cyfrannu i drafodaethau lleol a thrafodaethau eraill am y cynigion yn gwneud rôl CIC yn glir **ac yn dweud** os ydynt yn siarad yn bersonol neu ar ran CIC.

Awst 2015